Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

Polisi Ffioedd Rhentu Doeth Cymru

Ebrill 2025

Cynnwys

Cynnwys 1
Cyflwyniad 2
Cofrestru 3
Ffioedd 3
Rhagor o Wybodaeth 3
Ad-daliadau 3
Trwyddedu Landlordiaid 4
Ffioedd - egwyddorion sy'n berthnasol i holl ffioedd trwydded landlordiaid 4
Rhagor o Wybodaeth 5
Ad-daliadau 5
Trwyddedu Asiant 6
Nodyn ar haenau asiant 6
Ffioedd - egwyddorion sy'n berthnasol i holl ffioedd trwydded asiant 6
Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i bob haen trwydded asiant 6
Ad-daliadau 7
Trwydded Asiant – rheoli 20 eiddo neu lai 7
Trwydded Asiant – rheoli 21 eiddo neu fwy 8
Ffioedd 8
Trwydded Asiant – Gosod yn Unig 10
Gostyngiad ffioedd ychwanegol 10
Rhandaliadau 11
Hyfforddiant i Ymgeiswyr 12
Ffioedd cwrs ar gyfer landlordiaid ac asiantau 12
Darparwyr Hyfforddiant 14
Rhagor o Wybodaeth 15
Ffioedd Ychwanegol a Gostyngiadau 15

Cyflwyniad

Wedi'i ddiwygio gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2025.

Ceir isod y Polisi Ffioedd ar gyfer Rhentu Doeth Cymru (RhDC). Defnyddir y ffioedd a gesglir i ddarparu'r gwasanaeth sy'n cynnwys cofrestru landlordiaid, trwyddedu landlordiaid ac asiantau a chynnal hyfforddiant cysylltiedig. Mae RhDC yn sefydliad nid er elw.

Mae Rheoliad 9 (1) Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gwybodaeth, Cyfnodau a Ffioedd ar gyfer Cofrestru a Thrwyddedu) (Cymru) yn nodi os yw Awdurdod Trwyddedu yn codi ffi am gofrestru neu drwyddedu, y dylai baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd.

Mae Rheoliad 9 Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn nodi os yw Awdurdod Trwyddedu'n codi ffi am awdurdodi darparwr hyfforddiant neu gymeradwyo cwrs, mae'n rhaid iddo baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd.

Wrth osod y ffioedd ar gyfer cofrestru, trwyddedu a hyfforddi:

- Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu weithredu'n unol â'i bolisi;
- Gall yr Awdurdod Trwyddedu osod ffioedd gwahanol ar gyfer achosion neu ddisgrifiadau achosion gwahanol; a
- Gall yr Awdurdod Trwyddedu benderfynu nad oes angen talu ffi mewn rhai achosion neu ddisgrifiadau o achosion.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu ei bolisi ffioedd, ac oes yw'n gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r polisi fel y'i diwygiwyd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl i addasu ffioedd yn ôl ei ddisgresiwn.

Nodir isod y ffioedd a fydd yn gymwys i weithgareddau a ddarperir o dan ddarpariaethau Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 o 1 Ebrill 2025.

Cofrestru

Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, mae angen i bob landlord sydd ag eiddo rhent preifat a osodir dan denantiaeth ddomestig yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. Mae'r broses gofrestru yn cynnwys rhoi manylion personol y landlord, cyfeiriadau'r eiddo rhent y mae'r landlord hwnnw yn berchen arnynt, a manylion y rheiny sy'n gyfrifol am weithgareddau gosod a/neu reoli yn yr eiddo rhent.

Ffioedd

Bydd cofrestriad yn cael ei ddirymu ar ôl pum mlynedd oni bai bod cais yn cael ei gyflwyno am adnewyddu'r cofrestriad gyda'r ffi berthnasol.

Mae gostyngiadau yn cael eu cymhwyso i'r ffi safonol yn yr amgylchiadau canlynol

- Os yw'r cais yn cael ei wneud ar-lein
- Os gwneir cais am adnewyddu cofrestriad cyn diwedd y cyfnod cychwynnol. Er mwyn manteisio ar y ffi adnewyddu is, rhaid i'r landlord wneud cais adnewyddu o fewn yr 84 diwrnod cyn i'r cofrestriad ddod i ben.

Cofrestriad	Ffi Safonol	Ar-lein
Cofrestriad newydd	£102.00	£60.00
Adnewyddu cofrestriad	£87.00	£48.00

Rhagor o Wybodaeth

Os daw'r cofrestriad i ben heb ei adnewyddu, codir y ffi am gofrestriad newydd, nid y ffi adnewyddu.

Os yw perchnogaeth eiddo yn newid o un endid i'r llall e.e. person unigol i gorff corfforaethol, mae angen cofrestriad newydd a thalu'r ffi gysylltiedig.

Ad-daliadau

Ar ôl cwblhau cofrestriad, ni ellir ad-dalu'r ffi gysylltiedig ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os bydd cydlandlord yn marw ac mae'n rhaid i'r landlordiaid eraill ailgofrestru fel sy'n briodol; gwneir ad-daliad rhannol o ddyddiad y farwolaeth hyd at ddyddiad dod i ben y cofrestriad gwreiddiol.
- Lle mae'r cofrestriad yn annilys/anghywir. Fodd bynnag, lle mae'r landlord yn dal i fod angen cofrestru, dim ond ar ôl cydymffurfio'n gyfreithiol y bydd ad-daliad yn cael ei brosesu.

Trwyddedu Landlordiaid

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i landlordiaid sy'n gwneud gwaith gosod a/neu reoli mewn eiddo rhent gael trwydded Rhentu Doeth Cymru, gan sicrhau eu bod yn addas a phriodol a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol yn eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Mae cyfres o amodau trwyddedu yn rheoli'r ffordd y maent wedyn yn rhyngweithio â'u tenantiaid.

Ffioedd - egwyddorion sy'n berthnasol i holl ffioedd trwydded landlordiaid

Mae trwydded landlord yn ddilys am bum mlynedd. Mae adnewyddu trwydded landlord yn sicrhau ei bod yn ddilys am bum mlynedd arall. Gellir gwneud cais am adnewyddu trwydded yn yr 84 diwrnod cyn bod y drwydded yn dod i ben, ac mae'r dyddiad diwedd blwyddyn yn cael ei gadw.

Mae gostyngiadau yn cael eu cymhwyso i'r ffi safonol yn yr amgylchiadau canlynol

- Os yw'r cais yn cael ei wneud ar-lein
- Os telir yn llawn ar adeg cyflwyno'r cais*
- Os cyflwynir cais am adnewyddu trwydded rhwng 42 ac 84 diwrnod cyn i'r drwydded ddod i ben, cymhwysir gwobr cydymffurfio'n gynnar o 10% oddi ar y ffi safonol.

*Mae gan ymgeiswyr yr opsiwn i dalu'r ffi'r drwydded yn llawn ar adeg cyflwyno'r cais neu mewn dwy ran. Bydd angen gwneud rhan gyntaf y taliad wrth gyflwyno'r cais, ac ail ran y taliad cyn i'r drwydded gael ei rhoi ac o fewn pythefnos o wneud cais amdani. Os gwneir taliad mewn dwy ran, mae tâl gweinyddol ychwanegol o £48.00 yn berthnasol i'r holl fathau o ffioedd trwyddedu (ac eithrio pan fo'r taliad yn cael ei wneud mewn rhandaliadau). Er mwyn helpu cwsmeriaid i ddewis yr opsiwn cywir, mae'r awdurdod trwyddedu yn cynghori bod ganddo 8 wythnos i brosesu cais, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n cymryd rhwng 2-4 wythnos.

Trwydded Landlord	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Trwydded Landlord	£327.00		£254.00	
Trwydded Landlord (Rhannu'r Ffi)	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
	£234.00	£141.00	£188.00	£114.00
Trwydded Landlord – Gwobr Cydymffurfio'n Gynnar	£302.00		£230.00	
Trwydded Landlord – Gwobr Cydymffurfio'n Gynnar (Rhannu'r Ffi)	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
	£218.00	£132.00	£173.00	£105.00

Rhagor o Wybodaeth

- Mae dilysrwydd ceisiadau am drwydded yn cael eu hasesu ar adeg gwneud cais a bydd angen tystiolaeth o hyfforddiant priodol a chymeradwy. Mae gwybodaeth am ffioedd cyrsiau hyfforddi cymeradwy a ddarperir gan Rhentu Doeth Cymru ar gael ar dudalen 12.
- Ar ôl i'r cais am drwydded gael ei gymeradwyo, ni ellir newid math y cais. Bydd angen cais am drwydded newydd a thalu'r ffi os canfyddir bod y math o gais yn anghywir yn ddiweddarach.
- Os gwrthodir cais am drwydded, mae'r ffi sy'n ddyledus yn cyfateb i'r ffi Rhan 1 yn unig (ac eithrio tâl gweinyddu rhannu'r ffi o £48). Os yw swm mwy wedi'i dalu ar y cam gwneud cais, caiff y gwahaniaeth ei ad-dalu.
- Ar ôl cymeradwyo'r cais, os nad oes angen trwydded mwyach, gellir diddymu'r drwydded trwy gytundeb ar y cyd.

Ad-daliadau

Os yw trwydded yn cael ei chymeradwyo, ond nad oes ei hangen mwyach a/neu mae'n cael ei dirymu, ni ellir ad-dalu'r ffi gysylltiedig yn llawn. Gan ystyried swm yr ad-daliad sy'n berthnasol, bydd y rheolau canlynol yn cael eu cymhwyso:

- Nid yw'r hyn sy'n cyfateb i'r ffi Rhan 1 byth yn ad-daladwy. Ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu talu'n llawn ar adeg gwneud cais, mae hyn yn golygu'r taliad Rhan 1 a nodir uchod minws £48.
- Cyfrifir yr ad-daliad yn seiliedig ar ffi Rhan 2 wedi'i rhannu â 5 a'i luosi â nifer y blynyddoedd llawn sy'n weddill ar y drwydded.
- Os oes angen trwydded arall i ddisodli'r drwydded sydd i'w dirymu, ni fydd yr ad-daliad yn cael ei gyhoeddi nes bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio'n llawn.

Trwyddedu Asiant

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i asiantau sy'n gwneud gwaith gosod a/neu reoli mewn eiddo rhent gael trwydded Rhentu Doeth Cymru, gan sicrhau eu bod yn addas a phriodol a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol yn eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Mae cyfres o amodau trwyddedu yn rheoli'r ffordd y maent wedyn yn rhyngweithio â'u tenantiaid a landlordiaid. Diffinnir asiant (at ddibenion Rhentu Doeth Cymru) fel rhywun sy'n ymgymryd â gwaith gosod a/neu reoli mewn eiddo rhent nad nhw yw'r landlord.

Nodyn ar haenau asiant

Mae strwythur ffioedd am drwyddedau asiant yn seiliedig ar nifer yr eiddo y mae'n ei reoli. Mae'r rhain wedi'u dosbarthu'n 3 haen:

- Rheoli 20 eiddo neu lai
- Asiantau gosod tai yn unig
- Rheoli 21+ o eiddo (wedi'u rhannu'n bum categori)

Ffioedd - egwyddorion sy'n berthnasol i holl ffioedd trwydded asiant

Mae trwydded asiant yn ddilys am bum mlynedd. Mae adnewyddu trwydded asiant yn sicrhau ei bod yn ddilys am bum mlynedd arall. Gellir gwneud cais am adnewyddu trwydded yn yr 84 diwrnod cyn bod y drwydded yn dod i ben, ac mae'r dyddiad diwedd blwyddyn yn cael ei gadw.

Mae gostyngiadau yn cael eu cymhwyso i'r ffi safonol yn yr amgylchiadau canlynol

- Os yw'r cais yn cael ei wneud ar-lein
- Os telir yn llawn ar adeg cyflwyno'r cais*

*Mae gan ymgeiswyr yr opsiwn i dalu'r ffi'r drwydded yn llawn ar adeg cyflwyno'r cais neu mewn dwy ran. Bydd angen gwneud rhan gyntaf y taliad wrth gyflwyno'r cais, ac ail ran y taliad cyn i'r drwydded gael ei rhoi ac o fewn pythefnos o wneud cais amdani. Os gwneir taliad mewn dwy ran, mae tâl gweinyddol ychwanegol o £48.00 yn berthnasol i'r holl fathau o ffioedd trwyddedu (ac eithrio pan fo'r taliad yn cael ei wneud mewn rhandaliadau). Er mwyn helpu cwsmeriaid i ddewis yr opsiwn cywir, mae'r awdurdod trwyddedu yn cynghori bod ganddo 8 wythnos i brosesu cais, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n cymryd rhwng 2-4 wythnos.

Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i bob haen trwydded asiant

- Mae dilysrwydd ceisiadau am drwydded yn cael eu hasesu ar adeg gwneud cais a bydd angen tystiolaeth o hyfforddiant priodol a chymeradwy. Mae gwybodaeth am ffioedd cyrsiau hyfforddi cymeradwy a ddarperir gan Rhentu Doeth Cymru ar gael ar dudalen 12.
- Os yw'r asiant yn rheoli unrhyw eiddo lle mae'r asiant hefyd yn landlord (h.y. mae'r landlord a'r asiant yr un endid cyfreithiol) caiff yr eiddo landlord hwn ei eithrio o gyfanswm yr eiddo a reolir sy'n pennu ffi'r drwydded.

- Ar ôl i'r cais am drwydded gael ei gymeradwyo, ni ellir newid math y cais. Bydd angen cais am drwydded newydd a thalu'r ffi os canfyddir bod y math o gais yn anghywir yn ddiweddarach.
- Os gwrthodir cais am drwydded, mae'r ffi sy'n ddyledus yn cyfateb i'r ffi Rhan 1 yn unig (ac eithrio tâl gweinyddu rhannu'r ffi o £48). Os yw swm mwy wedi'i dalu ar y cam gwneud cais, caiff y gwahaniaeth ei ad-dalu.
- Ar ôl cymeradwyo'r cais, os nad oes angen trwydded mwyach, gellir diddymu'r drwydded trwy gytundeb ar y cyd.
- Os yw nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod a/neu reoli yn cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn ar ôl cymeradwyo'r drwydded, mae'r awdurdod trwyddedu yn cadw'r hawl i ofyn am dâl ychwanegol sy'n cyfateb i'r categori priodol ar yr adeg honno.

Ad-daliadau

Os yw trwydded yn cael ei chymeradwyo, ond nad oes ei hangen mwyach a/neu mae'n cael ei dirymu, ni ellir ad-dalu'r ffi gysylltiedig yn llawn. Gan ystyried swm yr ad-daliad sy'n berthnasol, bydd y rheolau canlynol yn cael eu cymhwyso:

- Nid yw'r hyn sy'n cyfateb i'r ffi Rhan 1 byth yn ad-daladwy. Ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu talu'n llawn ar adeg gwneud cais, mae hyn yn golygu'r taliad Rhan 1 a nodir uchod minws £48.
- Cyfrifir yr ad-daliad yn seiliedig ar ffi Rhan 2 wedi'i rhannu â 5 a'i luosi â nifer y blynyddoedd llawn sy'n weddill ar y drwydded.
- Os oes angen trwydded arall i ddisodli'r drwydded sydd i'w dirymu, ni fydd yr ad-daliad yn cael ei gyhoeddi nes bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio'n llawn.

Trwydded Asiant – rheoli 20 eiddo neu lai

Mae'r ffioedd canlynol yn berthnasol pan fo'r asiant yn gosod/rheoli 0 - 20 eiddo.

Mae'r gwaith gosod a rheoli sy'n bodloni'r angen am drwydded asiant wedi'i nodi yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Rhagnodir hyn yn adrannau 10 (Gwaith gosod) ac 11 (Gwaith rheoli) o'r Ddeddf y gellir ei gweld yma.

Haen Asiant	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Rheoli 0-4 Eiddo	£368.00		£299.00	
Rheoli 0-4 Eiddo (rhannu ffi)	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
	£156.00	£260.00	£130.00	£217.00
Rheoli 5-10 Eiddo	£471.00		£368.00	
Rheoli 5-10 Eiddo (rhannu ffi)	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
	£194.00	£325.00	£156.00	£260.00
Rheoli 11-20 Eiddo	£540.00		£471.00	
Rheoli 11-20 Eiddo (rhannu ffi)	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
	£220.00	£368.00	£194.00	£325.00

Trwydded Asiant – rheoli 21 eiddo neu fwy

Mae'r ffioedd canlynol yn berthnasol i asiantau sy'n rheoli 21 eiddo neu fwy.

Ffioedd

- Mae gostyngiad aelodaeth broffesiynol yn cael ei gymhwyso os yw'r asiant yn aelod o un o'r cyrff canlynol:
    - Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl (ARLA)
    - Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai (NAEA)
    - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
    - safeagent
    - Cymdeithas Asiantaethau Gosod Tai y DU (UKALA)
    - Arall fel y penderfynir gan yr Awdurdod Trwyddedu
- Mae asiantaeth gosod tai cymdeithasol y mae ei holl weithgareddau gosod a rheoli yn ymwneud â darparu ar y cyd â phartneriaeth gosod cymdeithasol awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer y gostyngiad aelodaeth broffesiynol.

Haen Asiant – rheoli 21 eiddo neu fwy				
Rheoli 21-50 Eiddo	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£3,850.00		£2,730.00	
Yn aelod o gorff proffesiynol	£3,465.00		£2,457.00	
21-50 Rhandaliadau	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2-5**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2-5**
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£1566.00	£571.00	£1111.00	£404.75
Yn aelod o gorff proffesiynol	£1410.00	£513.75	£999.00	£364.50
Rheoli 51-100 Eiddo	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£4,880.00		£3,590.00	
Yn aelod o gorff proffesiynol	£4,392.00		£3,231.00	
51-100 Rhandaliadau	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2-5**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2-5**
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£1,986.00	£723.50	£1,461.00	£532.25
Yn aelod o gorff proffesiynol	£1,787.00	£651.25	£1,315.00	£479.00
Rheoli 101-500 Eiddo	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£6,170.00		£4,670.00	
Yn aelod o gorff proffesiynol	£5,553.00		£4,203.00	
101-500 Rhannu Ffioedd	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£2,530.00	£3,688.00	£1,920.00	£2,798.00
Yn aelod o gorff proffesiynol	£2,279.00	£3,322.00	£1,730.00	£2,521.00
Rheoli 501-1000 Eiddo	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£7,890.00		£6,100.00	
Yn aelod o gorff proffesiynol	£7,101.00		£5,490.00	
501-1000 Rhannu Ffioedd	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£3,230.00	£4,708.00	£2,502.00	£3,646.00
Yn aelod o gorff proffesiynol	£2,909.00	£4,240.00	£2,253.00	£3,285.00
Rheoli 1001+ Eiddo	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£9,010.00		£7,050.00	
Yn aelod o gorff proffesiynol	£8,109.00		£6,345.00	
1001+ Rhannu Ffioedd	**Rhan 1**	**Rhan 2**	**Rhan 1**	**Rhan 2**
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£3,686.00	£5,372.00	£2,888.00	£4,210.00
Yn aelod o gorff proffesiynol	£3,319.00	£4,838.00	£2,601.00	£3,792.00

Trwydded Asiant – Gosod yn Unig

Mae'r ffioedd canlynol yn berthnasol pan fo asiant yn ymgymryd â gwaith gosod yn unig ar gyfer eiddo yng Nghymru. Mae'r asiantau hyn yn cael eu disgrifio fel asiant gosod yn unig at ddibenion y Polisi hwn. Mae hyn yn golygu nad yw'r asiant yn gwneud unrhyw waith rheoli.

Mae'r gwaith gosod a rheoli sy'n bodloni'r angen am drwydded asiant wedi'i nodi yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Rhagnodir hyn yn adrannau 10 (Gwaith gosod) ac 11 (Gwaith rheoli) o'r Ddeddf y gellir ei gweld yma.

Gostyngiad ffioedd ychwanegol

Mae gostyngiad aelodaeth broffesiynol yn cael ei gymhwyso os yw'r asiant yn aelod o un o'r cyrff canlynol ac yn gosod 21 neu fwy o eiddo:

- Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl (ARLA)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai (NAEA)
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
- safeagent
- Cymdeithas Asiantaethau Gosod Tai y DU (UKALA)
- Arall fel y penderfynir gan yr Awdurdod Trwyddedu

Haen Asiant Gosod yn Unig	**Ffi Safonol**		**Ar-lein**	
0-20 Gosod yn Unig				
0-20	£368.00		£299.00	
Ffi a rennir	Rhan 1	Rhan 2	Rhan 1	Rhan 2
	£156.00	£260.00	£130.00	£217.00
21+ Gosod yn Unig				
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£3850.00		£2730.00	
Yn aelod o gorff proffesiynol	£3465.00		£2457.00	
21+ Rhandaliadau Gosod yn Unig	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2-5**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2-5**
Ddim yn aelod o gorff proffesiynol	£1566.00	£571.00	£1111.00	£404.75
Yn aelod o gorff proffesiynol	£1410.00	£513.75	£999.00	£364.50

Rhandaliadau

Mae'r opsiwn i dalu mewn rhandaliadau ar gael i asiantau sy'n rheoli rhwng 21 a 100 eiddo yn unig (gan gynnwys asiantau gosod yn unig sy'n gosod 21 neu fwy o eiddo) oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol a bydd y rhain yn amodol ar gymeradwyaeth y Rheolwr Gweithredol.

Ni cheir talu trwy randaliadau ond os:

- yw Debyd Uniongyrchol yn cael ei sefydlu ar y cam gwneud cais
- ceir ymrwymiad o'r dechrau i dalu'r swm llawn
- nad oes tystiolaeth o hanes talu gwael neu hanes o ganslo cynlluniau talu blaenorol.

Pan gaiff trefniadau rhandaliadau eu canslo/pan na chânt eu talu caiff y drwydded ei diddymu a bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno cais newydd am drwydded os oes ei hangen. Codir ffi cais newydd am hyn, faint bynnag sy'n briodol, ar adeg gwneud y cais. Mae'r gallu i dalu ffi'r drwydded drwy sefydlu cynllun rhandaliad yn ôl disgresiwn Rhentu Doeth Cymru, a gellir ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

Hyfforddiant i Ymgeiswyr

Ffioedd cwrs ar gyfer landlordiaid ac asiantau

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnig ei hyfforddiant ei hun er mwyn ateb gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r cyrsiau ar gael yn uniongyrchol gan Rhentu Doeth Cymru ac mae'r ffioedd cysylltiedig wedi eu nodi isod:

Teitl y Cwrs	Dull darparu	Hyd	Ffi
Cwrs trwydded landlord	Ystafell Ddosbarth*	6.5 awr	£100
Cwrs trwydded asiant	Ystafell Ddosbarth*	7.5 awr	£140
Cwrs trwydded landlord	Ar-lein	Tua 5 awr	£35
Cwrs trwydded asiant	Ar-lein	Tua 7.5 awr	£60
Cwrs trwydded landlord	Papur	Tua 5 awr	£55**
Cwrs trwydded asiant	Papur	Tua 7.5 awr	£80**
Cwrs ail-drwyddedu landlord	Ystafell Ddosbarth*	6.5 awr	£100
Cwrs ail-drwyddedu asiant	Ystafell Ddosbarth*	7.5 awr	£140
Cwrs ail-drwyddedu landlord	Ar-lein	Tua 5 awr	£35
Cwrs ail-drwyddedu asiant	Ar-lein	Tua 7.5 awr	£60
Cwrs atodol asiant	Ar-lein	Tua 2.5 awr	£25
Cwrs gloywi i landlordiaid	Ar-lein	1 awr	Dim cost
Cyrsiau DPP	Ystafell Ddosbarth*	Oriau amrywiol	Hyd at £100 yn dibynnu ar fath a hyd y cwrs
Cyrsiau DPP	Ar-lein	Oriau amrywiol	Hyd at £60 yn dibynnu ar fath a hyd y cwrs
Gweminarau	Ar-lein	Oriau amrywiol	Hyd at £70 yn dibynnu ar fath a hyd y cwrs

*Gallai ffioedd cyrsiau ystafell ddosbarth newid pan fydd y contract darparwr hyfforddiant presennol yn dod i ben. Ar yr adeg honno bydd ffi newydd yn cael ei phennu ar gyfer cyrsiau perthnasol (er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu hadennill).

**Ddim ar gael ar adeg cyhoeddi, disgwylir ei lansio yn ystod 2025/26.

Bydd ymgeiswyr na allant gwblhau'r cwrs hyfforddi ar-lein neu yn yr ystafell ddosbarth oherwydd anabledd neu afiechyd yn cael cynnig dewisiadau amgen lle bo

hynny'n bosibl. Bydd ffioedd yn adlewyrchu cost darparu'r cwrs a bydd angen cymeradwyaeth gan y Rheolwr Gweithredol.

Bydd archebion ar gyfer cyrsiau hyfforddi a wneir ond heb eu mynychu/cyrsiau ar-lein wedi'u harchebu a heb eu cwblhau o fewn blwyddyn yn cael eu canslo ac ni wneir ad-daliad, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn cael eu profi.

Mae unrhyw gwrs hyfforddi ar-lein sy'n cael ei archebu ar gam ac na cheir mynediad ato, yn cael ei ad-dalu ar gais os gwneir y cais hwnnw o fewn 28 diwrnod o ddyddiad archebu'r cwrs.

Darparwyr Hyfforddiant

Gall yr Awdurdod Trwyddedu awdurdodi sefydliadau eraill i ddarparu hyfforddiant sy'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Mae pob cymeradwyaeth cwrs ac awdurdodiad darparwr hyfforddiant yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad cymeradwyo ac eithrio awdurdodiad darparwr hyfforddiant – mae cyrsiau gloywi ar gyfer yr holl opsiynau cwrs yn ddilys am 5 mlynedd o ddyddiad y diwygiad.

Er mwyn darparu hyfforddiant i fodloni gofynion trwyddedu mae angen cymeradwyaeth ar y cwrs, ac mae angen awdurdodi'r darparwr hyfforddiant drwy Gymeradwyo'r Cwrs ac Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant.

Gellir gweld gwybodaeth ychwanegol am gymeradwyo hyfforddiant ac awdurdodi darparwyr hyfforddiant yma.

Math y cais	Ffi
Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant / darparwr – Pob math o gwrs	£1003
Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant / darparwr – DPP yn unig*	£488
Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant / darparwr – Trwyddedu Cyrsiau Llawn*	£515
Cymeradwyo'r Cwrs – Cwrs Llawn (fesul cwrs) • Cwrs landlord ar-lein • Cwrs asiant ar-lein • Cwrs ystafell ddosbarth/rhithwir (pob opsiwn)	 £1,561 £1,693 £1,732
Cymeradwyo'r Cwrs – DPP • Cwrs DPP ar sail pwnc • Cwrs DPP sylfaenol • Cwrs DPP uwch	 £211 £310 £480

*Gall fod yn gymwys fel cwrs gloywi

Pan wneir cais am fwy nag un Cymeradwyaeth Cwrs - Cwrs Llawn, lle mae cynnwys y cyrsiau yr un fath ac felly gellir gweld arbedion maint, gellir cymhwyso gostyngiad ar ôl asesu faint o gynnwys y cyrsiau sy'n gorgyffwrdd.

Rhagor o Wybodaeth

Ffioedd Ychwanegol a Gostyngiadau

Manylion gwasanaeth	Swm	Cyngor pellach a chyfyngiadau
Diweddaru gwybodaeth	Dim cost	Oni nodir yn wahanol mewn polisi.
Cofrestru wedi'i argraffu	£15	
Trwydded wedi'i hargraffu	£15	
Deunyddiau cwrs hyfforddi wedi'u hargraffu	£20	Am ddim os yw'r cwsmer wedi talu am gwrs ystafell ddosbarth gyda RhDC.
Newid o gais ar-lein i gais papur	Yn amrywio.	Os yw landlord/asiant wedi gwneud cais am drwydded ar-lein ac am dderbyn gohebiaeth trwy'r post, yna bydd angen i'r ymgeisydd dalu am y gwahaniaeth rhwng y ffi ostyngedig a'r ffi safonol.
Cymeradwyo cyrsiau DPP arbedion maint	gostyngiad o 10%	Os yw darparwr yn cyflwyno mwy na 5 cais am gyrsiau DPP uwch neu sylfaenol ar yr un pryd, bydd gostyngiad o 10% yn cael ei gymhwyso i gyfanswm cost cymeradwyo'r cwrs.